Arolwg o weithdrefnau ar gyfer gwirio staff ysgol ac oedolion eraill

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL.
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Argymhellion **4**

Canfyddiadau'r arolwg **6**

1. Gwiriadau cyn penodi 6

2. Materion eraill 8

3. Enghreifftiau o arfer dda ac arfer anfoddhaol 11

Cyflwyniad

1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau ymholi wedi codi pryderon difrifol am drefniadau ar gyfer amddiffyn plant mewn ysgolion a chartrefi plant yng Nghymru. Mae'r argymhellion o'r ymholiadau hynny wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth am yr angen am gae trefniadau priodol ar waith i osgoi cael pobl anaddas yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

2 Yn fwy diweddar, yn Lloegr, codwyd rhagor o bryderon am bosibilrwydd pobl anaddas yn gweithio mewn ysgolion. Mae gweinidogion yng Nghymru a Lloegr wedi ymateb i'r pryderon hyn trwy gyhoeddi ystod o fesurau i gau bylchau presennol a chyfyngu rhagor ar weithdrefnau ar gyfer gwirio a gwahardd unigolion y canfuwyd eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant. Yng Nghymru, gofynnodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, i Estyn gynnal arolwg brys o arfer gwirio gyfredol mewn sampl o ysgolion ac i adrodd iddi hi yn y gwanwyn.

3 Trefnodd Estyn i ymweliadau arolygu gael eu gwneud yn fyr rybudd (yn y rhan fwyaf o achosion, awr) â 28 ysgol. Ymwelodd arolygwyr ag o leiaf un ysgol ym mhob awdurdod addysg lleol (AALl) yng Nghymru ac fe wnaethant ymweliadau ychwanegol i sicrhau ymdriniaeth ddigonol â phob math o ysgol. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r ymweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 27 Chwefror 2006, gyda gweddill yr ymweliadau'n cael eu cynnal ar 6 Mawrth 2006. Yn ogystal â'r ymweliadau ysgol, cynhaliodd Estyn arolwg ffôn o bob un o'r 22 AALl i wirio'r gweithdrefnau y maent yn eu gweithredu ar ran eu hysgolion. Cynhaliwyd yr arolwg ffôn yn yr wythnos yn dechrau 20 Chwefror 2006. Cynhaliodd Estyn gyfweliadau ffôn gydag uwch staff hefyd mewn pedwar coleg addysg bellach ac fe wnaethant holi nifer o asiantaethau athrawon llanw ynglŷn â'u gweithdrefnau gwirio. Mae'r arolwg hefyd yn ystyried tystiolaeth arolygu Estyn o sectorau addysg a hyfforddiant eraill, gan gynnwys dysgu yn y gwaith, ysgolion annibynnol ac arolygiadau ardal.

Prif ganfyddiadau

4 Mewn perthynas â phob un o ysgolion yr arolwg, mae yna drefniadau boddhaol i:

- gadarnhau pwy yw'r bobl sy'n ymgeisio am swyddi gwag;
- olrhain geirdaon proffesiynol a geirdaon eraill ymgeiswyr;
- trefnu ar gyfer cynnal gwiriadau manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) ar ymgeiswyr am swyddi y byddai eu gwaith yn cynnwys cyswllt â phlant; a
- sicrhau bod athrawon llanw yn cael cliriad angenrheidiol y SCT.

5 Nid oes gan nifer fach o ysgolion weithdrefnau boddhaol ar gyfer:

- gwirio cymwysterau academaidd a phroffesiynol ymgeiswyr;
- sicrhau nad yw staff newydd a benodir yn dechrau gweithio nes bod yr ysgol wedi cael y cliriad angenrheidiol gan y SCT neu'r heddlu; ac
- ymateb i wybodaeth sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd staff, neu ddarpar staff.

6 Ar y cyfan, mae gweithdrefnau yn anfoddhaol mewn perthynas â:

- sicrhau bod gweithwyr yn iach yn feddygol;
- gwirio bod athrawon wedi cofrestru â Chyngor Addysg Cyffredinol Cymru (CACC);
- gwneud gwiriadau ar athrawon o dramor;
- cadw cofnodion staff;
- diogelu disgyblion o oed ysgol sy'n derbyn rhywfaint neu eu holl addysg a'u hyfforddiant oddi ar safle'r ysgol; a
- gwirio oedolion, ar wahân i athrawon, a allai fod mewn cyswllt â phlant ar safle'r ysgol.

7 Yn gyffredinol, mae gan bron bob pennaeth ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ar gyfer gwirio staff ac oedolion eraill, ond nid oes gan staff eraill, gan gynnwys dirprwy benaethiaid, ddealltwriaeth ddigon da o'r gweithdrefnau gofynnol.

8 Mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn fodlon â'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan eu AALl. Nid yw chwe ysgol wedi cael cyngor na chymorth effeithiol gan eu AALl mewn perthynas â'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mewn rhai achosion, mae dealltwriaeth ysgol o agweddau penodol ar wirio a gweithdrefnau cysylltiedig yn wahanol i ddealltwriaeth ei AALl, neu mae'r ysgol yn ansicr ynglŷn â'r gweithdrefnau.

9 Mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion yn mynegi bod angen eglurhad neu arweiniad pellach arnynt.

10 O'r 10 ysgol annibynnol sydd wedi cael arolygiad llawn ers mis Medi 2004, mae pob ysgol ac eithrio un yn bodloni'r safon sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003 mewn perthynas â gwiriadau'r SCT a gwiriadau eraill ar staff. Fodd bynnag, nid yw staff yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi cael digon o hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth foddhaol o bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant eu hysgol.

Argymhellion

A1 Dylai ysgolion, gyda chymorth eu AALlau, gadw at arweiniad cyhoeddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig ar gyfer:

- sicrhau bod darpar weithwyr yn iach yn feddygol;
- gwirio bod athrawon wedi cofrestru â CACC;
- gwneud gwiriadau ar athrawon o dramor;
- cadw cofnodion staff;
- diogelu disgyblion o oed ysgol sy'n cael rhywfaint neu eu holl addysg a'u hyfforddiant oddi ar safle'r ysgol; a
- gwirio oedolion, ar wahân i athrawon, a allai fod mewn cyswllt â phlant ar safle'r ysgol.

A2 Ni ddylai ysgolion ganiatáu i unrhyw weithiwr newydd weithio gyda phlant cyn derbyn y cliriad angenrheidiol mewn perthynas â gwiriadau'r SCT a gwiriadau perthnasol eraill.

A3 Dylai ysgolion, gyda chymorth AALlau, sicrhau bod pob llywodraethwr ysgol wedi cael cliriad manylach y SCT yn ddiweddar.

A4 Dylai AALlau sicrhau bod pob ysgol yn eu hardal, p'un a yw'n ysgol a gynhelir neu fel arall, yn gwbl ymwybodol o rôl a gweithdrefnau manwl eu AALl ar gyfer gwirio staff ac eraill sydd â chyswllt â phlant.

A5 Dylai AALlau roi cyngor clir i ysgolion ar y trefniadau amgen y dylent eu gwneud pan nad yw ysgol yn derbyn cliriad y SCT neu'r heddlu cyn y dyddiad y disgwylir i weithiwr newydd ddechrau gweithio.

A6 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad ac argymhellion clir i ysgolion ac AALlau am y gweithdrefnau y dylid eu dilyn i ddiogelu disgyblion sy'n derbyn rhywfaint neu eu holl addysg a/neu hyfforddiant mewn adeiladau ar wahân i safle ysgol.

A7 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod holl staff ysgol, gan gynnwys gweithwyr presennol, yn cael cliriad manylach y SCT yn unol â'r raddfa amser a gytunir ar gyfer gweithredu deddfwriaeth gwirio a gwahardd newydd.

A8 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi sylw brys i adolygu'r gwiriadau a wneir dramor ar athrawon, gyda'r bwriad o wneud y gwiriadau hyn yn fwy trylwyr a chyson.

A9 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES), gyflwyno rhestr unigol o 'bersonau anaddas' sy'n cael ei diweddaru ac y gellir ymgynghori â hi trwy berson ymholi unigol, yn unol â'r cynllun gwirio a gwahardd yn y dyfodol.

A10 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno arweiniad i AALlau ar amlder a natur yr hyfforddiant a ddarperir ganddynt i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion am faterion sy'n ymwneud â gwiriadau ar oedolion a allai fod mewn cyswllt â phlant.

A11 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno arweiniad clir i ysgolion ac AALlau ar y camau y dylent eu cymryd pan fyddant yn derbyn gwybodaeth sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd staff presennol neu ddarpar weithwyr. Dylai'r arweiniad hwn dynnu sylw at yr angen i arsylwi gweithdrefnau diogelu y cytunwyd arnynt yn lleol.

Canfyddiadau'r arolwg

11 Cyhoeddir y brif ffynhonnell arweiniad ar atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg yng Nghylchlythyr Rhif 34/2002 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae adran gyntaf canfyddiadau'r arolwg, mewn perthynas â gwiriadau cyn-penodi, yn dilyn trefn adrannau perthnasol y Cylchlythyr hwn. Mae'r ail adran yn mynd i'r afael â materion perthnasol eraill ac mae'r adran olaf yn nodi enghreifftiau o arfer dda ac arfer anfoddhaol.

1. Gwiriadau cyn-penodi

(a) Staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu

Hunaniaeth

12 Ym mhob un o'r ysgolion, mae trefniadau boddhaol ar waith i gadarnhau pwy yw ymgeiswyr cyn eu penodi. Cynhelir y ffurf fwyaf cyffredin o wiriad hunaniaeth fel rhan o wirio'r SCT y mae AALlau yn ei drefnu ar ran eu hysgolion, ac eithrio yn yr achosion prin lle mae ysgol yn gwneud ei threfniadau ei hun ar gyfer gwirio'r SCT. Er bod trefn wirio'r SCT yn cynnwys gwiriad digonol o ran hunaniaeth, mae deg o ysgolion yr arolwg yn cynnal eu gwiriadau ychwanegol eu hunain ar hunaniaeth ymgeiswyr.

Cymwysterau academaidd a phroffesiynol

13 Mae gweithdrefnau boddhaol ar waith ym mhob ysgol ar wahân i dair i sicrhau bod cymwysterau academaidd a phroffesiynol ymgeiswyr yn cael eu gwirio cyn eu penodi. Mae wyth ysgol yn dibynnu ar eu AALl i gynnal y gwiriadau hyn ac mae eraill naill ai'n gofyn i ymgeiswyr ddangos tystysgrifau mewn cyfweliad (12 ysgol), neu wneud eu gwiriadau eu hunain gyda CACC fel arall (dau ysgol).

14 Mae gweithdrefnau yn anfoddhaol mewn tair ysgol. Mae un o'r ysgolion hyn yn "ymddiried yn yr ymgeisydd" ac ni roddodd un ysgol unrhyw wybodaeth ychwanegol am ei gweithdrefnau. Mae'r drydedd ysgol yn gwirio cymwysterau athrawon newydd gymhwyso, ond nid cymwysterau ei hathrawon eraill.

Geirdaon proffesiynol a chymeriad a hanes cyflogaeth flaenorol

15 Mae pob ysgol naill ai'n gofyn am eirdaon ysgrifenedig eu hunain neu'n gofyn i'w AALl wneud hyn. Mae llawer o ysgolion yn gwirio'r geirda ysgrifenedig gyda galwad ffôn ddilynol.

Gwiriad cofnod troseddol a Rhestr 99

16 Mae pob ysgol yn trefnu cynnal gwiriadau'r SCT ar ymgeiswyr y byddai eu gwaith yn cynnwys cyswllt â phlant. Mae bron pob ysgol yn dibynnu ar yr AALl i drefnu cynnal gwiriadau'r SCT ar eu rhan. Mae un o ysgolion yr arolwg yn trefnu ei gwiriadau SCT

ei hun. Ambell waith, cynigir cyflogaeth yn amodol ar dderbyn cliriad boddhaol yn sgil y gwiriadau perthnasol.

17 Mae rhai ysgolion yn adrodd bod cwblhau gwiriadau'r heddlu a chliriad y SCT yn gallu bod yn araf iawn mewn rhai achosion, yn enwedig pan gaiff y broses gyfan ei threfnu a'i gweinyddu gan yr AALl. Dan amgylchiadau eithriadol, pan nad yw'r ysgol yn cael cliriad darpar gyflogwr cyn y disgwylir iddo/iddi ddechrau gweithio yn yr ysgol, mae'r pennaeth yn gwneud asesiad risg a gallai, yn dibynnu ar ffactorau amrywiol fel hanes blaenorol y gweithiwr, benderfynu caniatáu iddo/iddi ddechrau gweithio. Mae hyn yn digwydd ambell waith hyd yn oed mewn AALlau sy'n honni na chaniateir yr arfer hon.

18 Mae pob ysgol yn bodloni ei hun bod athrawon llanw'n cael cliriad angenrheidiol y SCT cyn eu caniatáu i weithio gyda dosbarthiadau o ddisgyblion. Mae pump o ysgolion yr arolwg yn mynnu gweld datgeliadau SCT yr holl staff llanw. Mae pob un o'r ysgolion sy'n weddill yn derbyn sicrwydd yr AALl neu'r asiantaeth athrawon llanw bod eu hathrawon llanw wedi cael y cliriad angenrheidiol. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan AALlau ac asiantaethau athrawon llanw yn dangos bod y sicrwydd hwn yn ddibynadwy.

Iechyd

19 Ychydig iawn o gyffredinolrwydd neu eglurder sydd am weithdrefnau ar gyfer sicrhau bod gweithwyr yn iach yn feddygol i weithio gyda phlant neu bobl ifanc. Mae pedair ysgol yn gofyn am archwiliad meddygol cyn cyflogaeth ac mae naw yn gofyn am ddatganiad wedi'i lofnodi o iechyd a ffitrwydd. Mae chwe ysgol yn adrodd bod yr AALl yn sicrhau'r sicrwydd angenrheidiol ar eu rhan. Nid yw chwe ysgol arall yn cynnal eu gwiriadau eu hunain, ac maent yn ansicr ynglŷn â'r gweithdrefnau a weithredir gan eu AALl. Rhoddodd yr ysgolion sy'n weddill ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl am eu gweithdrefnau.

(b) Athrawon

Statws athro cymwys

20 Cyn y gellir cynnig swydd fel athro i ymgeisydd, mae angen gwirio gyda CACC er mwyn cadarnhau bod ganddo/ganddi statws athro cymwys a'i fod/bod wedi cofrestru â CACC. Mae gan bron bob ysgol weithdrefnau ar waith i gadarnhau bod eu hathrawon wedi'u cofrestru â CACC. Fodd bynnag, mae 15 o ysgolion yr arolwg yn dibynnu ar wiriad blynyddol na fydd efallai, mewn perthynas ag athrawon newydd eu penodi, yn cael ei gynnal nes ar ôl eu penodi. Mae pedair ysgol yn tybio bod yr AALl yn gwneud y gwiriad angenrheidiol ond nid ydynt yn sicr bod hyn yn wir. Mae chwe ysgol, yn briodol, yn gwneud eu gwiriadau uniongyrchol eu hunain â CACC. Ni all dwy o ysgolion yr arolwg roi unrhyw sicrwydd bod gwiriadau boddhaol yn cael eu gwneud. Nid oes digon o eglurder na chysondeb ynghylch lle mae'r cyfrifoldeb yn sefyll ar gyfer gwirio bod athrawon wedi cofrestru â CACC.

Athrawon tramor

21 Mae lefelau ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac AALlau am weithdrefnau ar gyfer gwneud gwiriadau ar athrawon o dramor yn anghyson, yn bennaf oherwydd mai ychydig iawn o brofiad uniongyrchol sydd gan y rhan fwyaf o ysgolion a chryn dipyn o AALlau o ddelio ag athrawon o dramor neu ddim o gwbl. Dim ond saith o ysgolion yr arolwg sydd wedi cael profiad uniongyrchol o gyflogi staff tramor. Gwiriodd dwy o'r ysgolion hyn hanes cyflogaeth a gyrfa, ond nid oeddent wedi gwneud gwiriadau'r heddlu. Roedd y pum ysgol arall wedi trefnu gwneud pob un o'r gwiriadau perthnasol, naill ai gan yr AALl neu drwy asiantaeth. Ychydig iawn o gyffredinolrwydd sydd o ran ymatebion yr ysgolion sy'n weddill, er bod pedair ysgol yn nodi y byddent yn gwneud y gwiriadau angenrheidiol eu hunain a dywed wyth ysgol y byddent yn dibynnu ar eu AALl i wneud hynny. Mae tair ysgol yn teimlo nad yw'r mater yn berthnasol iddyn nhw.

22 Dim ond wyth o'r 22 AALl sy'n rhoi arweiniad i ysgolion ar gyflogi staff o dramor, er bod pump AALl arall yn nodi y byddent yn rhoi arweiniad ar gais. Rhoddodd pedwar AALl ymatebion anfoddhaol ar y pwynt hwn a rhoddodd pump AALl ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl. Yn y naw AALl hwn, mae angen codi ymwybyddiaeth swyddogion am y gweithdrefnau i'w dilyn.

2. Materion eraill

Gwiriadau ar leoliadau oddi ar safle

23 Nid oes trefniadau digonol i amddiffyn disgyblion sy'n derbyn rhywfaint neu'u holl addysg neu hyfforddiant mewn mannau ar wahân i safleoedd ysgol, lle gallai rhai fod mewn cyswllt ag oedolion anaddas. Yr hyn sy'n peri pryder penodol yw'r diffyg trefniadau i amddiffyn disgyblion ar leoliadau profiad gwaith.

24 Mae trefniadau ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc rhag myfyrwyr eraill sy'n oedolion mewn colegau addysg bellach yn anghyson. Mewn dau o'r pedwar coleg lle cyfwelodd arolygwyr ag uwch staff dros y ffôn, mae trefniadau boddhaol ar waith. Mae un coleg yn nodi bod trefniadau priodol ar waith ond nid yw ei ddisgrifiad manwl o'r trefniadau hyn yn rhoi sicrwydd boddhaol. Nid oes gan y coleg arall drefniadau i amddiffyn dysgwyr o dan 16 oed rhag myfyrwyr hŷn sy'n oedolion ac mae'n mynegi bod angen arweiniad pellach yn y maes hwn.

Cadw cofnodion

25 Nid yw'r ymagweddau at gadw a diweddaru cofnodion o wiriadau staff yn gyson. Cedwir y rhan fwyaf o'r cofnodion hyn gan awdurdodau lleol, ond ychydig iawn o fanylder penodol a roddwyd gan yr awdurdodau am eu gweithdrefnau. Mae saith AALl yn disgwyl i ysgolion gadw rhai o'r cofnodion (e.e. manylion CV, prawf o gymwysterau), ond mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu nad yw pob ysgol yn yr AALlau hyn yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Lle mae ysgolion yn cadw eu cofnodion eu hunain, mae amrywiad sylweddol o ran arfer mewn perthynas â pha gofnodion a gedwir ganddynt, ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cadw gwybodaeth berthnasol mewn lle diogel neu ar ffurf electronig gyda mynediad cyfyngedig. Mae

angen mwy o gysondeb ac eglurder ynghylch pwy sy'n cadw'r cofnodion amrywiol, a sut, ac am ba hyd, y cânt eu storio.

Gwiriadau ar oedolion a allai fod mewn cyswllt â phlant

26 Mae arfer mewn perthynas â gwiriadau ar oedolion y gallai fod ganddynt gyswllt â phlant yn anghyson. Mae'r rheiny sydd ag awdurdod i fynd i mewn i ysgol, ac sydd felly mewn cyswllt â phlant yn cynnwys staff addysgu a staff cynorthwyol (gan gynnwys staff sy'n ymweld), llywodraethwyr, gofalwyr, staff tir, gyrwyr bysiau mini, hebryngwyr, gwirfoddolwyr (gan gynnwys cynorthwywyr sy'n rhieni) a siaradwyr sy'n ymweld. Mae eraill a allai fod â mynediad i safle'r ysgol yn cynnwys rhieni sy'n mynychu sesiynau Llythrennedd Teuluol ac oedolion sy'n defnyddio'r llwybrau troed cyhoeddus ar draws tir yr ysgol.

27 Dim ond 11 o ysgolion yr arolwg sy'n cadarnhau eu bod yn gwirio pob oedolyn a allai fod mewn cyswllt â phlant. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n weddill yn adrodd nad yw ymwelwyr, gan gynnwys cynorthwywyr sy'n rhieni, yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda phlant. Nid yw ysgolion lle mae contractwyr allanol yn darparu gwasanaethau arlwyo a glanhau yn sicr p'un a yw'r staff dan sylw wedi cael cliriad y SCT. Dim ond tair ysgol sy'n cadarnhau bod aelodau o'u corff llywodraethol wedi cael cliriad y SCT, er bod chwech AALl yn adrodd bod pob un o'u llywodraethwyr ysgol wedi gwneud hynny. Mae saith AALl arall yn dweud nad yw eu llywodraethwyr ysgol wedi cael cliriad y SCT. Mewn llawer o'r AALlau sy'n weddill, mae'r sefyllfa'n aneglur. Ar y cyfan, mae angen mwy o eglurder a chysondeb mewn perthynas â gweithdrefnau gwirio ar gyfer llywodraethwyr ysgol, staff nad ydynt yn addysgu, ymwelwyr ag ysgolion ac oedolion eraill a allai fod mewn cyswllt â phlant.

Pryderon ynghylch addasrwydd staff ac oedolion eraill

28 Mae pob ysgol yn cadarnhau y byddent yn gofyn am gyngor di-oed gan yr AALl pe bai unrhyw un o'r gweithdrefnau ar staff neu ddarpar staff yn datgelu gwybodaeth sy'n bwrw amheuaeth dros eu haddasrwydd. Yn achos gweithwyr cyfredol, dywed rhai ysgolion y byddent, fel mesur interim rhagofalus, yn sicrhau nad oedd y gweithiwr dan sylw yn cael ei adael ar ben ei hun gyda phlant. Adroddodd un ysgol y byddai'n ysgogi gweithdrefnau ymchwiliadol, yn galw Panel Disgyblaethol ac yn gwahardd yr aelod o staff dan sylw. Byddai'r camau a gynigir gan yr ysgol hon yn amhriodol pe baent, fel sy'n ymddangos yn debygol, yn gwrthdaro â gweithdrefnau amddiffyn plant y cytunwyd arnynt yn lleol.

29 Mewn amgylchiadau lle mae ysgol yn cael gwybodaeth yn awgrymu y gallai person fod yn anaddas, mae pob ysgol ac eithrio dwy yn datgan y byddent yn gofyn am arweiniad gan yr AALl. Mae dwy ysgol yn datgan y byddent yn gwahardd unrhyw aelod o staff y derbyniwyd gwybodaeth o'r math hwn amdano/amdani ar unwaith. Byddai pob ysgol yn cymryd camau ar unwaith i sicrhau nad oedd y person yn cael ei adael ar ei ben ei hun gyda phlant. Mae sawl ysgol yn mynegi pryder ynghylch delio â honiadau a allai yn y diwedd fod yn faleisus.

30 Mae pob ysgol yn cadarnhau na chaniateir i oedolion na wnaed gwiriadau arnynt gael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda phlant. Os oes ganddynt reswm i fod yn

bryderus am unrhyw un o'r oedolion hyn, ni fyddant yn eu cyflogi nac yn eu caniatáu ar safle'r ysgol. Yn ychwanegol, byddant yn hysbysu'r AALl ynglŷn â'u pryderon.

Dealltwriaeth ysgolion o'u cyfrifoldebau a'u hymwybyddiaeth o arweiniad perthnasol

31 Mae pob un o ysgolion yr arolwg ar wahân i dair yn cadarnhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ar gyfer gwirio staff ac ymwelwyr â'u hysgol. Mae un o'r tair ysgol arall yn mynegi pryder penodol am y sefyllfa mewn perthynas â Llwybrau Dysgu 14-19 a lleoliadau y tu allan i leoliad yr ysgol.

32 Mae pob un o ysgolion yr arolwg ar wahân i bump yn datgan eu bod yn gyfarwydd â Chylchlythyr 34/2002. Mae pymtheg ysgol yn nodi eu bod yn cael cymorth a/neu arweiniad da gan eu AALl, ond mae chwe ysgol yn mynegi anfodlonrwydd â lefel y cymorth a'r arweiniad a gânt gan eu AALl. Nid yw tair o'r chwe ysgol wedi cael unrhyw arweiniad ychwanegol gan eu AALl am gynnwys y Cylchlythyr. Mae'r tair ysgol arall wedi cael hyfforddiant AALl ar y Cylchlythyr, ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth dda o'i gynnwys. Mewn rhai AALlau, mae angen rhoi mwy o gymorth ac arweiniad i ysgolion.

33 Mae 13 o ysgolion yr arolwg yn adrodd nad oes yna unrhyw agweddau ar eu rôl y maent yn eu gweld yn ddryslyd, ond dywed 15 ysgol bod angen eglurhad neu arweiniad pellach arnynt mewn meysydd penodol. Dyma'r meysydd y mae ysgolion yn nodi bod angen gwella:

- cadarnhau bod yr AALl yn gwirio staff glanhau ac arlwyo ysgolion;
- cadarnhau bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal ar staff sydd mewn cyswllt â disgyblion ar brofiad gwaith;
- mwy o waith ar y cyd a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill;
- mwy o arweiniad ar ddelio â honiadau o gamymddwyn a gweithdrefnau mewn perthynas â gwahardd staff;
- egluro cyfrifoldeb ar gyfer gwirio asiantaethau allanol sy'n defnyddio adeiladau ysgol;
- egluro rôl yr ysgol mewn perthynas â rôl yr AALl; a
- cyngor i ysgolion ar sut i fynd ymlaen pan fydd gwiriadau'r heddlu a chliriad y SCT yn araf yn dod trwodd.

34 Hoffai'r mwyafrif helaeth o ysgolion (22 o'r rheiny a arolygwyd) gael arweiniad pellach ar faterion amrywiol mewn perthynas ag addasrwydd staff. Yr ardal a achosai'r pryder mwyaf oedd yn delio â honiadau (maleisus neu fel arall) am aelodau o staff. Byddai ysgolion hefyd yn croesawu:

- rhestr unigol o bobl sydd wedi'u gwahardd, neu 'ganolfan un stop';

- arweiniad (e.e. ar ffurf siart llif) i ddelio â senarios 'beth pe bai?'; ac
- eglurder am yr angen am wiriadau ar staff sy'n gwasanaethu yn y tymor hwy.

Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ysgolion o ddeddfwriaeth berthnasol

35 Mae pob un o'r ysgolion wedi defnyddio'r Cylchlythyrau perthnasol, neu Ffeil Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, neu arweiniad yr AALl y mae'r ddeddfwriaeth yn amlwg wedi dylanwadu arno. Mae deunaw o ysgolion yr arolwg yn cadarnhau bod y Cylchlythyrau wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar eu polisïau a'u gweithdrefnau. Nid yw'n ymddangos bod gan nifer fach o'r ysgolion bolisi ar waith, gan gynnwys rhai sy'n ymddangos nad ydynt yn ymwybodol o'r Cylchlythyrau. Mae pymtheg o ysgolion yr arolwg yn adrodd bod staff yn ymwybodol o gynnwys y Cylchlythyrau a'u goblygiadau ar gyfer materion amddiffyn plant.

36 Mae un ar bymtheg o ysgolion yr arolwg yn ymwybodol o'r gofyniad penodol i adrodd anaddasrwydd neu gamymddygiad person, hyd yn oed pan fydd y person hwnnw wedi ymddiswyddo neu wedi'i ddiswyddo. Mae chwech o'r ysgolion sy'n weddill yn datgan y byddent yn gofyn am arweiniad gan eu AALl. Nid yw'r chwe ysgol arall yn cynnig unrhyw sicrwydd boddhaol. Mae'n amlwg bod angen mewn cyfran sylweddol o ysgolion i godi ymwybyddiaeth am y gofynion.

37 Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn awgrymu y gallai fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno arweiniad i AALlau ar amlder ac ystod yr hyfforddiant y dylent ei ddarparu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion am faterion mewn perthynas â gwiriadau ar oedolion a allai fod â chyswllt â phlant, gan gynnwys y gofynion penodol ar gyfer adrodd am anaddasrwydd neu gamymddygiad person.

Gweithdrefnau mewn ysgolion annibynnol

38 O'r deg ysgol annibynnol sydd wedi cael arolygiad llawn ers mis Medi 2004, mae naw ohonynt yn bodloni'r safon sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003 mewn perthynas â gwiriadau'r SCT a gwiriadau eraill ar staff. Nid oedd yr ysgol arall wedi cynnal unrhyw wiriadau ac mae'n ofynnol iddi roi cynllun gweithredu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw staff yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi cael digon o hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth foddhaol am bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant eu hysgol.

3. Enghreifftiau o arfer dda ac arfer anfoddhaol

(a) Arfer dda

39 Mewn dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw (16), mae cysylltiadau effeithiol â'u AALl mewn perthynas â gweithdrefnau gwirio yn nodwedd gref iawn. Nodir bod cysylltiadau ag asiantaethau eraill yn gryfder mawr mewn naw ysgol. Mewn chwech o'r ysgolion, mae polisïau a gweithdrefnau ysgol sy'n cael eu deall yn dda yn gryfderau penodol.

40 Er bod gweithdrefnau mewn AALlau yn foddhaol ar y cyfan, mae agweddau penodol mewn rhai AALlau yn hynod gryf. Mewn tri AALl, mae'r arweiniad a roddir i ysgolion

o ansawdd arbennig o dda gan ei fod yn rhoi cyngor clir a chynhwysfawr sy'n ymdrin ag ystod lawn o amgylchiadau. Mae dau AALl wedi penodi swyddog dynodedig yn benodol i oruchwylio gweithdrefnau gwirio. Mae un AALl wedi trefnu i bob un o'i lywodraethwyr ysgol gael gwiriadau'r SCT.

(b) Arfer anfoddhaol

41 Nid oes gan bum ysgol bolisi na gweithdrefnau perthnasol ar waith o ran gwirio. Nid yw'r ysgolion hyn yn ymwybodol o Gylchlythyrau 34/2002 a 33/2005. Nid oes gan un o'r ysgolion yr un rhestr i gadarnhau bod staff wedi cael cliriad y SCT, ac nid yw un arall o'r ysgolion hyn yn cael cadarnhad o gymwysterau academaidd a phroffesiynol ymgeiswyr. Mae'r canfyddiadau hyn yn codi pryderon sylweddol am allu'r pum ysgol hon i atal pobl anaddas rhag bod mewn cyswllt â disgyblion.

42 Mewn un ysgol, cyfwelodd arolygwyr â'r dirprwy bennaeth yn absenoldeb y pennaeth. Nid yw natur yr ymatebion a roddwyd yn yr ysgol hon yn rhoi llawer iawn o hyder y byddai'r ysgol, yn absenoldeb y pennaeth, yn gweithredu gweithdrefnau priodol yn effeithiol. Mae'n amlwg yn bosibl y gallai'r sefyllfa hon godi mewn ysgolion eraill pan fydd y pennaeth yn absennol. Mae angen sicrhau bod gan yr holl staff addysgu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth lawn o'r polisi a'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn atal pobl anaddas rhag bod mewn cyswllt â phlant.

43 Mae tair ysgol yn dweud eu bod yn anfodlon â threfniadau partneriaeth ag asiantaethau eraill.

44 Mewn sawl ysgol, mae yna ansicrwydd ynghylch agweddau ar y gweithdrefnau i'w dilyn. Dyma'r meysydd ansicrwydd:

- p'un a yw'r AALl yn cynnal gwiriadau ar staff arlwyo a glanhau;
- p'un a yw'r AALl yn cynnal rhannau penodol o'r gwiriadau sy'n ofynnol ar gyfer staff addysgu, gan gynnwys hanes cyflogaeth, cofrestru CACC a ffitrwydd meddygol; a
- ph'un ai'r AALl neu'r ysgol sy'n gyfrifol am gael dogfennau perthnasol a'u storio.

45 Adroddodd un ysgol y byddai'n ysgogi gweithdrefnau ymchwiliadol pe bai'n cael gwybodaeth sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd aelod o staff, neu ddarpar aelod o staff. Byddai'r ymateb hwn bron yn sicr yn mynd yn groes i weithdrefnau amddiffyn plant y cytunwyd arnynt yn lleol.